Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo gynadledda Teams ar **17 Chwefror 2025** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd), Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Lisa Toth, Cyng. John Wyn Williams a'r Cyng. Jackie Spence.

**Swyddogion:-** Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd) ac un aelod o'r cyhoedd.

**120/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng Beverley Jones a’r Cyng. Michael Pattison.

**121/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**122/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cyngor fod yr eitem hon wedi'i gohirio tan gyfarfod nesaf y Cyngor ar 17eg Mawrth 2025. Mae hyn oherwydd nad oedd y ddau aelod o'r cyhoedd yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD:** Gofyn i Gyfarwyddwr y Ddinas wahodd y ddau gynrychiolydd i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 17eg Mawrth 2025.

**123/24 CYFETHOL CYNGHORYDD DINAS I WARD MENAI**

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniadau gan ddau ymgeisydd am y sedd wag yn Ward Menai.

**PENDERFYNWYD:** cyfethol Jackie Spence i sedd wag Ward Menai.

**124/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 13 IONAWR 2025**

**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2025 fel cofnod cywir o’r cyfarfod.

**CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 27 IONAWR 2025**

**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2025 fel cofnod cywir o’r cyfarfod.

DRAFT

## 125/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

*Roedd yr adroddiad wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*

Tynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig sylw at rai pwyntiau o'i adroddiad i'r Cyngor fel a ganlyn:-

i) Mae Cyngor y Ddinas wedi sicrhau dau grant i helpu i sefydlu'r hyb cymunedol yng Nghaffi Hafan sy'n werth cyfanswm o bron i £6,000. Mae'r trosglwyddiad hwn fwy neu lai wedi'i gwblhau ac mae'r lleoliad yn boblogaidd yn barod gyda mudiadau'r trydydd sector.

ii) Cynhaliwyd cyfarfod ddydd Mercher diwethaf rhwng Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor a swyddogion Cyngor y Ddinas i ail-edrych ar broblemau casglu sbwriel a gwastraff ym Mangor Uchaf. Braf oedd gweld pum Aelod o Gabinet Gwynedd yn bresennol a thra bod y drafodaeth yn codi rhai materion heriol, cytunwyd i roi cynnig ar rai ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r problemau.

iii) Ar yr 28ain o'r mis hwn, bydd plac yn cael ei ddadorchuddio, yma yn Neuadd y Penrhyn, i goffau arwyddo'r Cytundeb Tridarn yn 1405 OC, rhwng Owain Glyndwr, Edmund Mortimer, a Henry Percy Iarll 1af Northumberland. Mae gwesteion wedi eu gwahodd, gan gynnwys Cadeirydd Cymdeithas Owain Glyndwr, a bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei weini yn y Neuadd wedyn.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad.

## 126/24 TRAFOD RHYDDFREINIAU DINAS BANGOR

Roedd cynnig wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ynghylch y posibilrwydd o roi Rhyddfraint y Ddinas i Gadeirlan Bangor. Mae eleni yn garreg filltir hanesyddol i'r Gadeirlan sydd yn dathlu 1,500 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol i roi Rhyddfraint Dinas Bangor i Gadeirlan Bangor. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr ystyried enwebiadau eraill erbyn y cyfarfod nesaf a chyflwyno cynigion i'r Cyfarwyddwr Dinesig.

## 127/24 TRAFOD PANELI SOLAR AR GYFER NEUADD Y PENRHYN

*Roedd yr adroddiad ar y tri opsiwn wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod.*

Roedd Swyddog Prosiect y Cyngor yn bresennol i ateb cwestiynau ar y cynigion amrywiol i osod paneli solar newydd ar Neuadd y Penrhyn. Bydd y paneli solar yn cael eu gosod a'u weirio i gyflenwi trydan i swyddfeydd Cyngor y Ddinas. Bydd gosod y paneli solar hyn yn

DRAFT

sicrhau y gall Cyngor y Ddinas gyrraedd ei darged o ddod yn Gyngor mwy ynni-effeithlon a gwyrddach.

**PENDERFYNWYD** mai opsiwn 3, staff y Cyngor i drefnu gosod pŵer solar, fyddai'r opsiwn mwyaf ffafriol. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Dinesig ddod â dadansoddiad cost ar gyfer y prosiect, gan gynnwys arbedion tybiedig, i gyfarfod nesaf y cyngor.

Gan fod yr eitem nesaf yn cynnwys trafodaeth fanwl ar y cytundeb prydles rhwng Cyngor y Ddinas a Nantporth CIC, cynigiwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer yr eitem nesaf 128/24.

**128/24 TRAFOD CAIS GAN NANTPORTH CIC**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig y Cyngor ar geisiadau a wnaed ar ddyfodol Stadiwm Nantporth gan gyfarwyddwyr Nantporth CIC.

**PENDERFYNWYD:**

i) Gwrthod y cais am les 250 mlynedd, fel y gofynnwyd.
ii) Gwrthod y cais i ostwng y rhent i £1 y flwyddyn am 250 mlynedd.
iii) Cadarnhau nad oedd gan Gyngor y Ddinas ddiddordeb mewn gwerthu'r stadiwm ar hyn o bryd
iv) Cymeradwyo trafodaethau ar ymestyn y brydles gyfredol i gyfnod a fyddai'n hwyluso grant Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

**129/24 TRAFOD CYNNIG LLWYBR TREFTADAETH WARTSKI**

Cyflwynwyd cynnig ar gyfer Llwybr Treftadaeth Wartski ym Mangor i'r Cyngor. Byddai'r llwybr yn dilyn yr ardaloedd hanesyddol ym Mangor a'r cyffiniau sydd wedi cael eu dylanwadu gan deulu Wartski. Mae'r rhain yn ardaloedd megis caeau Wartski ar Ffordd Caergybi, a gyflwynwyd i'r Ddinas er cof am aelod o'r teulu a fu'n Faer yn 1939 – 1941. Hysbyswyd y Cyngor bod teulu Wartski wedi cadarnhau y byddant yn cyfrannu at sefydlu'r llwybr. Gofynnwyd i Gyngor y Ddinas a ellid rhoi cyfraniad tuag at y llwybr.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylid gohirio'r eitem hon tan gyfarfod nesaf y cyngor hyd nes y ceir rhagor o wybodaeth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR